



CYNLLUN MARCIO TAG UG

HAF 2016

**CYFRIFIADUREG – UG NEWYDD UNED 2
2500N20-1**

Fersiwn Cymraeg o'r cynllun marcio cyfrwng Saesneg gwreiddiol yw hwn. Ni chafodd ei ddefnyddio'n ymarferol yn y gynhadledd farcio.

RHAGARWEINIAD

Defnyddiwyd fersiwn Saesneg gwreiddiol y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2016. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

TAG CYFRIFIADUREG
CYNLLUN MARCIO HAF 2016
UNED 2

Canllawiau ar gyfer arholwyr

Marcio cadarnhaol

Dylid cofio bod dysgwyr yn ysgrifennu dan amodau arholiad a dylid rhoi clod am yr hyn y mae dysgwr yn ei ysgrifennu, yn hytrach na'i gosbi/chosbi am unrhyw bethau sydd wedi'u gadael allan. Dylai fod yn bosibl i ateb da iawn gael marciau llawn ac i ateb gwael iawn gael sero marciau. Ni ddylid tynnu marciau am ateb sy'n llai na pherffaith os yw'n bodloni meini prawf y cynllun marcio.

Dylid cymhwyso'r cynllun marcio'n fanwl gywir ar gyfer cwestiynau sy'n wrthrychol neu'n seiliedig ar bwyntiau. Dylid rhoi marciau fel y dangosir heb isrannu ymhellach.

Mae cynlluniau marcio cwestiynau sy'n seiliedig ar fandiau mewn dwy ran.

Yn Rhan 1 rhoddir cyngor ar y cynnwys dangosol sy'n awgrymu ystod y cysyniadau, theori, materion a dadleuon cyfrifiadureg y gallai'r dysgwr ei chynnwys yn ei h/atebion. Gellir defnyddio'r rhain i asesu ansawdd ymateb y dysgwr.

Yn Rhan 2 ceir grid asesu sy'n dangos pa fandiau a'r marciau cysylltiedig y dylid eu rhoi am ymatebion sy'n dangos y nodweddion sy'n angenrheidiol yn AA1, AA2 ac AA3. Os nad yw ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno mae hyn yn cael ei ddangos ar y grid fel band marciau sero.

Cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau

Mae cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau wedi'u rhannu'n fandiau gyda disgrifydd perthnasol i bob band. Disgrifydd y band sy'n disgrifio lefel perfformiad y band hwnnw. Mae pob band yn cynnwys marciau.

Yn gyntaf dylai arholwyr ddarllen ac anodi ateb y dysgwr er mwyn dethol y dystiolaeth sy'n cael ei hasesu yn y cwestiwn hwnnw. Ar ôl cwblhau'r broses anodi, gellir cymhwyso'r cynllun marcio.

Proses mewn dau gam yw hon.

Cam 1 – Penderfynu ar y band

Dylid ystyried yr ateb yn gyfannol wrth benderfynu ar y band. Gan ddechrau o'r band isaf, dylai arholwyr edrych ar ateb y dysgwr a gwirio i weld a yw'n cyfateb i ddisgrifydd y band hwnnw. Dylai arholwyr edrych ar ddisgrifydd y band hwnnw a gweld a yw'n cyfateb i'r nodweddion mae ateb y dysgwr yn eu dangos. Os bodlonir disgrifydd y band isaf, dylai aseswyr symud i fyny i'r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band tan y bydd y disgrifydd yn cyfateb i'r ateb.

Os yw'r ateb yn trafod agweddau gwahanol ar fandiau gwahanol yn y cynllun marcio, dylid defnyddio dull 'ffit orau' er mwyn penderfynu ar y band ac yna dylid defnyddio ateb y dysgwr i benderfynu ar y marc o fewn y band hwnnw. Er enghraifft os yw darn o waith yn waith band 2 yn bennaf ond rhywfaint o'r cynnwys yn waith band 3, yna gwaith band 2 ydyw ond byddai'r marc i'w ddyfarnu'n agos at frig band 2 oherwydd y cynnwys band 3. Ni ddylai arholwyr dynnu marciau oddiar ymgeiswyr am adael rhai pethau allan mewn rhannau dibwys o ateb.

Cam 2 – Penderfynu ar y marc


Ar ôl penderfynu ar y band, gall arholwyr roi marc am yr ateb. Bydd yr Uwch Arholwr yn rhoi cyngor manwl am rinweddau pob band marciau yn ystod y cymedroli (cynhadledd farcio). Yna bydd arholwyr yn derbyn enghreifftiau o farciau ym mhob band marciau sydd wedi'u marcio gan yr Uwch Arholwr. Dylai arholwyr farcio'r enghreifftiau a chymharu eu marciau â marciau'r Uwch Arholwr.

Gall arholwyr ddefnyddio'r enghreifftiau hyn wrth farcio er mwyn penderfynu a yw ymateb y dysgwr yn well, yn waeth neu o safon gymharol i'r enghraifft. Atgoffir arholwyr y dylent edrych eto ar yr ateb wrth gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc maent yn eu rhoi yn briodol i'r ateb a roddwyd.

Mae awgrymiadau ar gyfer y cynnwys yn cael eu darparu hefyd mewn cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau. Nid yw'r awgrymiadau ar gyfer y cynnwys yn gynhwysfawr, ac mae'n rhaid rhoi credyd am unrhyw bwyntiau dilys eraill. Er mwyn cyrraedd bandiau uchaf y cynllun marcio nid yw'n angenrheidiol i'r dysgwr ymdrin â'r holl bwyntiau yn y cynnwys dangosol ond mae'n rhaid iddyn nhw fodloni gofynion y band marciau uchaf. Os nad yw ateb yn haeddu marciau, gan nad yw'n cynnwys unrhyw beth o arwyddocâd i'r cynllun marcio, neu ateb heb ei gynnwys o gwbl, ni ddylid rhoi marciau.

Adran A

Cw	Ateb	Marc	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm																																																																						
1	<p>Mae'r ymgeisydd wedi dylunio'r canlynol yn addas:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Enwau maes x 2 (2 faes addas yn ogystal â'r Maes Allweddol) • Mathau data x 2 (derbyn rhifo awtomatig fel math) • Meysydd Allweddol x 2 (unrhyw ddangosydd Maes Allweddol os yw'n eglur (*tanlinellu) • Hydoedd maes x 2 (derbyn sengl/dwbl) • Gofynion Dilysu (2 fath) x 2 <ul style="list-style-type: none"> ○ Amrediad, Fformat, Presenoldeb, Hyd, Am-edrych <p>Cynnwys dangosol</p> <p>Enghraifft bosibl o'r tabl Cwsmeriaid:</p> <table border="1"> <thead> <tr> <th>Enw maes</th> <th>Maes allweddol</th> <th>Math data</th> <th>Hyd maes</th> <th>Dilysu</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>RhACwsmer</td> <td>Oes-mynegedig</td> <td>Cyfanrif</td> <td>7</td> <td>Presenoldeb</td> </tr> <tr> <td>Teitl</td> <td>-</td> <td>Llinyn</td> <td>10</td> <td>Am-edrych Mr, Mrs, Miss ...</td> </tr> <tr> <td>EnwCyntaf</td> <td>-</td> <td>Llinyn</td> <td>25</td> <td></td> </tr> <tr> <td>...</td> <td>...</td> <td>...</td> <td>...</td> <td>...</td> </tr> <tr> <td>Cod Post</td> <td>-</td> <td>Llinyn</td> <td>9</td> <td>Fformat LL00 OLL</td> </tr> <tr> <td>DyddiadGeni</td> <td>-</td> <td>Dyddiad</td> <td>2/2/4</td> <td>Amrediad 1-31, 1-12 ...</td> </tr> </tbody> </table> <p>Ac ati</p> <p>Enghraifft bosibl o'r tabl Gwyliau:</p> <table border="1"> <thead> <tr> <th>Enw maes</th> <th>Maes allweddol</th> <th>Math data</th> <th>Hyd maes</th> <th>Dilysu</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>RhAGwyliau</td> <td>Oes-mynegedig</td> <td>Cyfanrif</td> <td>7</td> <td>Presenoldeb</td> </tr> <tr> <td>EnwGwyliau</td> <td>-</td> <td>Llinyn</td> <td>20</td> <td>-</td> </tr> <tr> <td>Cyrchfan</td> <td>-</td> <td>Llinyn</td> <td>20</td> <td>-</td> </tr> <tr> <td>MathGwyliau</td> <td>-</td> <td>Llinyn</td> <td>20</td> <td>Am-edrych – Sgio, Haul, Mordaith, Gwersylla ac ati</td> </tr> <tr> <td>DyddiadauArGael</td> <td>-</td> <td>Dyddiad</td> <td>2/2/4</td> <td>Amrediad 1-31, 1-12 ...</td> </tr> <tr> <td>Cost</td> <td>-</td> <td>Arian Cyfred/Gwirioneddol</td> <td>5</td> <td>Gwriad math – rhaid i'r data fod yn Wirioneddol/Arian Cyfred</td> </tr> </tbody> </table> <p>Ac ati</p>	Enw maes	Maes allweddol	Math data	Hyd maes	Dilysu	RhACwsmer	Oes-mynegedig	Cyfanrif	7	Presenoldeb	Teitl	-	Llinyn	10	Am-edrych Mr, Mrs, Miss ...	EnwCyntaf	-	Llinyn	25		Cod Post	-	Llinyn	9	Fformat LL00 OLL	DyddiadGeni	-	Dyddiad	2/2/4	Amrediad 1-31, 1-12 ...	Enw maes	Maes allweddol	Math data	Hyd maes	Dilysu	RhAGwyliau	Oes-mynegedig	Cyfanrif	7	Presenoldeb	EnwGwyliau	-	Llinyn	20	-	Cyrchfan	-	Llinyn	20	-	MathGwyliau	-	Llinyn	20	Am-edrych – Sgio, Haul, Mordaith, Gwersylla ac ati	DyddiadauArGael	-	Dyddiad	2/2/4	Amrediad 1-31, 1-12 ...	Cost	-	Arian Cyfred/Gwirioneddol	5	Gwriad math – rhaid i'r data fod yn Wirioneddol/Arian Cyfred	2 2 2 2 2		2.1b		10
Enw maes	Maes allweddol	Math data	Hyd maes	Dilysu																																																																								
RhACwsmer	Oes-mynegedig	Cyfanrif	7	Presenoldeb																																																																								
Teitl	-	Llinyn	10	Am-edrych Mr, Mrs, Miss ...																																																																								
EnwCyntaf	-	Llinyn	25																																																																									
...																																																																								
Cod Post	-	Llinyn	9	Fformat LL00 OLL																																																																								
DyddiadGeni	-	Dyddiad	2/2/4	Amrediad 1-31, 1-12 ...																																																																								
Enw maes	Maes allweddol	Math data	Hyd maes	Dilysu																																																																								
RhAGwyliau	Oes-mynegedig	Cyfanrif	7	Presenoldeb																																																																								
EnwGwyliau	-	Llinyn	20	-																																																																								
Cyrchfan	-	Llinyn	20	-																																																																								
MathGwyliau	-	Llinyn	20	Am-edrych – Sgio, Haul, Mordaith, Gwersylla ac ati																																																																								
DyddiadauArGael	-	Dyddiad	2/2/4	Amrediad 1-31, 1-12 ...																																																																								
Cost	-	Arian Cyfred/Gwirioneddol	5	Gwriad math – rhaid i'r data fod yn Wirioneddol/Arian Cyfred																																																																								

Cw	Ateb	Marc	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm
2	 <p>1 marc am bob un:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cysylltiadau perthynas cywir • Allwedd estron o'r tabl Cwsmeriaid (RhACwsmer) • Allwedd estron o'r tabl Gwyliau (RhAGwyliau) • Tabl Cwsmeriaid wedi'i gwblhau gydag enghreifftiau o feysydd • Tabl Bwciadau wedi'i gwblhau gydag enghreifftiau o feysydd • Tabl Gwyliau wedi'i gwblhau gydag enghreifftiau o feysydd 	1 1 1 1 1 1		2.1b 2.1b 2.1b 2.1b 2.1b 2.1b		6

Cw	Ateb	Marc	AA1	AA2	AA3	Cyfan swm
3	<p>Cynnwys dangosol</p> <pre> graph TD Start([begin]) --> Input[/input searchitem/] Input --> More{more items} More -- No --> OutputNotFound[/output "not found"/] OutputNotFound --> End([end]) More -- Yes --> Check[check next item] Check --> Found{found searchitem?} Found -- Yes --> OutputItem[/output item/] OutputItem --> End Found -- No --> More </pre> <p>1 marc am bob un:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Symbolau cywir • Penderfyniad cywir (chwiliad llwyddiannus am y math o wyliau, e.e. EitemChwilio = Mordaith) • Defnydd cywir o ddolen • Defnydd cywir o amod terfynu • Gweithrediad cywir (gwirio eitem nesaf) • Allbwn cywir (dychwelyd eitem a dychwelyd heb ddod o hyd iddi) <p>Derbyn dulliau eraill os ydynt yn gywir.</p>	<p>1</p> <p>1</p> <p>1</p> <p>1</p> <p>1</p> <p>1</p>		<p>2.1b</p> <p>2.1b</p> <p>2.1b</p> <p>2.1b</p> <p>2.1b</p> <p>2.1b</p>		6

Cw	Ateb	Marc	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm
4	Cynnwys dangosol: <ul style="list-style-type: none"> Trafod y rhyngwyneb (CLI/GUI) Strwythurau data (araeau/ffeiliau) Trin ffeiliau (cyfresol/hap) Dilysu (amrediad, fformat, presenoldeb, hyd) Newidynnau lleol neu eang a ddefnyddiwyd Y gallu i drin mathau data (llinyn/cyfaint/Boole) 	6		2.1b		6

Band	AA2.1b
	6 marc ar y mwyaf
3	<p style="text-align: center;">5 - 6 marc</p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi:</p> <ul style="list-style-type: none"> ysgrifennu ymateb estynedig sy'n cynnal yr ymresymu mewn ffordd sy'n eglur, perthnasol, ac wedi'i strwythuro'n rhesymegol dangos dealltwriaeth glir o ofynion y cwestiwn a gwybodaeth glir o'r awgrymiadau ar gyfer y cynnwys. Diffinnir gwybodaeth glir fel ymateb sy'n rhoi pump neu chwech o bwyntiau manwl perthnasol am ddethol a chyfiawnhau'r dull datrys arfaethedig ar gyfer y tri phrif beth y gofynnir amdanynt yn y senario ymdrin â'r cwestiwn yn briodol heb fawr ddim ailadrodd nac unrhyw ddeunydd amherthnasol cyflwyno trafodaeth gytbwys ac wedi rhoi enghreifftiau i gyfiawnhau'r ateb defnyddio termau technegol priodol gan gyfeirio'n hyderus a chywir at y cynnwys dangosol.
2	<p style="text-align: center;">3 - 4 marc</p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi:</p> <ul style="list-style-type: none"> ysgrifennu ymateb â thrywydd ymresymu digonol sy'n cynnwys elfennau o eglurder, perthnasedd, a strwythur rhesymegol dangos dealltwriaeth ddigonol o ofynion y cwestiwn a gwybodaeth foddhaol o'r topig trosi fel y manylir arno yn y cynnwys dangosol. Diffinnir gwybodaeth foddhaol fel ymateb sy'n rhoi tri neu bedwar o bwyntiau manwl perthnasol am ddethol a chyfiawnhau'r dull datrys arfaethedig ar gyfer y tri phrif beth y gofynnir amdanynt yn y senario cyflwyno trafodaeth gan roi enghreifftiau cyfyngedig defnyddio termau technegol priodol gan gyfeirio'n at y cynnwys dangosol.
1	<p style="text-align: center;">1 - 2 marc</p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi:</p> <ul style="list-style-type: none"> ysgrifennu ymateb nad oes iddo ddigon o ymresymu a strwythur cynhyrchu trafodaeth sydd heb ei datblygu'n dda ceisio mynd i'r afael â'r cwestiwn ond wedi dangos gwybodaeth arwynebol o'r topigau fel y manylir arnynt yn y cynnwys dangosol. Diffinnir gwybodaeth arwynebol fel ymateb sy'n rhoi un neu ddau o bwyntiau manwl perthnasol am ddethol a chyfiawnhau'r dull datrys arfaethedig ar gyfer y tri phrif beth y gofynnir amdanynt yn y senario defnyddio ychydig o dermau technegol gan gyfeirio at y cynnwys dangosol.
0	<p style="text-align: center;">0 marc</p> <p>Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno.</p>

Cw	Ateb	Marc	AA1	AA2	AA3	Cyfa nsw m
5	<p>Cynnwys dangosol:</p> <p>Rhaid i'r ateb fod yng nghyd-destun y senario bwcio gwyliau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Modd gweithredu addas: Trafod Amser Real • Moddau gweithredu anaddas: Swp-brosesu • Caiff ei dderbyn ond nid yw'n ddisgwyliedig fel modd gweithredu anaddas: Amser Real. <p><u>Swp-brosesu</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Un neu fwy o raglenni (gydag unrhyw ddata angenrheidiol) yn cael eu cyflwyno i'r cyfrifiadur fel 'darn o waith' a'i roi mewn ciw i'w brosesu, o bosibl "bwciadau gwyliau niferus, wedi'i roi mewn ciw". • Nid oes rhyngweithio rhwng y defnyddiwr a'r cyfrifiadur. – Byddai hyn yn anaddas i gwsmeriaid <i>Happy Hols</i>. • Mae'n bosibl prosesu ar adegau allfrig fel dros nos, gan nad oes angen rhyngweithio. – Anaddas gan y gallai cwsmeriaid fod am addasu'r dewisiadau maen nhw wedi'u gwneud, lefel y gwasanaeth ac ati • Mae Swp-brosesu yn cael ei gysylltu fel arfer â chyfrifiaduron prif ffrâm, ond mae'n fwy tebygol y bydd cyfrifiaduron personol seiliedig ar feddalwedd windows gan <i>Happy Hols</i>. • Nid yw systemau swp-brosesu bod amser yn gyfoes. Byddai hyn yn anaddas i <i>Happy Hols</i> gan y gallai ceisiadau cwsmeriaid arwain at bwcio dwbl. <p><u>Amser Real</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Modd gweithredu yw amser real lle mae'r data mae'r cyfrifiadur yn eu derbyn yn cael eu prosesu ar unwaith, y data wedi'u storio yn cael eu diweddarau ac unrhyw weithredu angenrheidiol yn digwydd. Mae'n fwy addas ar gyfer gweithrediad lle mae diogelwch yn hanfodol. Efallai y bydd cwsmeriaid <i>Happy Hols</i> eisiau gwneud sawl tasg ar unwaith ac edrych ar opsiynau gwahanol sydd ar gael ar y rhyngwyd a gwneud ymchwil i sawl gwefan wahanol. • Mae cyfrifiadur sy'n cael ei ddefnyddio mewn system amser real yn benodol - dyna'r oll mae'n ei wneud - mae'n anaddas i <i>Happy Hols</i> gan fod staff a chwsmeriaid eisiau defnyddio'r cyfrifiadur o bosibl. • Bydd system fel hon yn hanfodol i ddiogelwch - mae bywyd mewn perygl os bydd y feddalwedd yn methu (rhaid bod yn fethu diogel) – Diangen yn achos meddalwedd bwcio gwyliau. • Hefyd mae'n debygol o fod yn feddalwedd (a chaledwedd) hynod gymhleth/arbenigol – anaddas i gwmni teithio bach fel <i>Happy Hols</i>. 	8		2.1b		8

	<p>Systemau trafod amser real (system Gywir)</p> <ul style="list-style-type: none"> • System ar-lein lle mae trafodion arwahanol, unigol yn cael eu prosesu wrth iddyn nhw ddigwydd. • Pan mae'r cyfrifiadur yn derbyn trafodyn, mae'r data sy'n cael eu storio'n cael eu diweddar'u'n gyflym iawn. Dylai hyn sicrhau mewn system bwcio nad yw dau gwsmer yn bwcio'r un gwyliau. Yn syml, mae 'amser real' yn golygu os ydych yn edrych ar gyflwr y system ar unrhyw un adeg mae'n gyfoes bob amser, h.y. mae'r slot gwyliau neu ystafell gwesty wedi'i gymryd yn awr ac nid yw cwsmeriaid eraill Happy Hols yn gallu bwcio'r un peth. • Mae'r trafodyn wedi'i gloi (cloi cofnodion) tan y bydd y bwciad yn cael ei gadarnhau (rhoi amser i'r cwsmer newid ei feddwl). / bwciadau heb eu cadarnhau yn cael eu rhyddhau i'w rhoi ar y rhestr 'ar gael'. 					
--	---	--	--	--	--	--

Band	<p style="text-align: center;">AA2.1b 8 marc ar y mwyaf</p>
3	<p style="text-align: center;">7 - 8 marc</p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ysgrifennu ymateb estynedig sy'n cynnal yr ymresymu mewn ffordd sy'n eglur, perthnasol, ac wedi'i strwythuro'n rhesymegol • dangos dealltwriaeth glir o ofynion y cwestiwn a gwybodaeth glir o'r awgrymiadau ar gyfer y cynnwys. Diffinnir gwybodaeth glir fel ymateb sy'n rhoi dau neu dri o bwyntiau manwl perthnasol am y dull gweithredu cywir a dau neu dri o bwyntiau am y dull gweithredu anaddas, sy'n ymwneud a chryn dipyn o'r cynnwys dangosol • ymdrin â'r cwestiwn yn briodol heb fawr ddim ailadrodd nac unrhyw ddeunydd amherthnasol • cyflwyno trafodaeth gytbwys ac wedi defnyddio enghreifftiau'n ymwneud â chwsmeriaid a staff Happy Hols i gyfiawnhau ei ateb • defnyddio termau technegol priodol gan gyfeirio'n hyderus a chywir at y cynnwys dangosol.
2	<p style="text-align: center;">3 - 6 marc</p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ysgrifennu ymateb â thrywydd ymresymu digonol sy'n cynnwys elfennau o eglurder, perthnasedd, a strwythur rhesymegol • dangos dealltwriaeth ddigonol o ofynion y cwestiwn a gwybodaeth foddhaol o'r topig moddau o weithredu fel y manylir arno yn y cynnwys dangosol. Diffinnir gwybodaeth arwynebol fel ymateb sy'n rhoi un i ddau o bwyntiau ar foddau gweithredu addas ac anaddas fel y nodir yn yr awgrymiadau ar gyfer y cynnwys • cyflwyno trafodaeth gan roi enghreifftiau cyfyngedig • defnyddio termau technegol priodol gan gyfeirio at y cynnwys dangosol.
1	<p style="text-align: center;">1 - 2 marc</p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ysgrifennu ymateb nad oes iddo ddigon o ymresymu a strwythur • cynhyrchu trafodaeth sydd heb ei datblygu'n dda • ceisio mynd i'r afael â'r cwestiwn ond wedi dangos gwybodaeth arwynebol o'r topigau fel y manylir arnynt yn y cynnwys dangosol. Diffinnir gwybodaeth arwynebol fel ymateb sy'n cynnig enwau modd gweithredu addas ac anaddas • defnyddio ychydig o dermau technegol gan gyfeirio at y cynnwys dangosol.
0	<p style="text-align: center;">0 marc</p> <p>Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno.</p>

Cw	Ateb	Marc	AA1	AA2	AA3	Cyfa nsw m
6	<p>Unrhyw algorithm sy'n cyflawni chwiliad neu gymhariaeth ddilys/ffwythiannol sy'n dychwelyd allbynnau fel y nodir yn y cwestiwn:</p> <p>Enghraifft</p> <pre> 01 set i = 0 02 declare lowestprice is integer 03 declare highestprice is integer 04 declare found is boolean 05 set found = false 06 output "Please enter lowest price" 07 input lowestprice 08 output "Please enter highest price" 09 input highestprice 10 repeat 11 if HolidayArray[i,1]>lowestprice then 12 if HolidayArray[i,1]<highestprice then 13 set found = True 14 output "Holiday ID:",HolidayArray[i,0] 15 output "Price £:", HolidayArray[i,1] 16 end if 17 end if 18 set i = i + 1 19 until (i > LENGTH(HolidayArray)) 20 if found = false then 21 output "No Match Found" 22 end if </pre> <p>1 marc am bob un:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymgychwyn / datgan newidynnau • Defnyddio dolen • Cymariaethau â mewnbwn terfynau • Defnyddio lluman er mwyn tracio "found / not found" • Defnyddio amod terfynu • Allbynnu HolidayID, Price a Not found • Un allbwn rhifiadol gywir • Pob allbwn rhifiadol gywir <p>Rhoddir marciau am y cysyniadau a ddangosir uchod. Mae'r marc i'w roi am ddatrysiadau eraill sy'n cynnwys y cysyniadau uchod ac sy'n rhoi'r un canlyniad yn union.</p>					8
		1			3.1b	
		1			3.1b	
		1			3.1b	
		1			3.1b	
		1			3.1b	
		1			3.1b	
		1			3.1b	
		1			3.1b	

Adran B

Cw	Ateb	Marc	AA1	AA2	AA3	Cyfan swm
1	Cynnwys dangosol: <ul style="list-style-type: none"> • Agor y ffeil ddata • Darllen y cynnwys • Cymharu meini prawf Cymharu Gwyliau â'r rhestr • Cynyddu cynnwys y newidyn Gwyliau wedi'i ganfod 	4			3.1b	4

Band	AA3.1b
	4 marc ar y mwyaf
	4 marc
3	Mae'r ymgeisydd wedi: <ul style="list-style-type: none"> • Gweithredu'r holl bwyntiau gofynnol fel y nodwyd yn y cynnwys dangosol • Defnyddio a manteisio'n llawn ar gyfleusterau rhaglennu'r iaith • Dangos dealltwriaeth gadarn o'r offer a thechnegau priodol sydd ar gael iddo/iddi
	2 - 3 marc
2	Mae'r ymgeisydd wedi: <ul style="list-style-type: none"> • Gweithredu'r mwyafrif o'r pwyntiau gofynnol fel y nodwyd yn y cynnwys dangosol. Diffinnir y mwyafrif fel ymateb sy'n rhoi dwy neu dair eitem o'r gweithrediadau fel y manylir yn y cynnwys dangosol. • Defnyddio a manteisio ar gyfleusterau rhaglennu'r iaith • Dangos dealltwriaeth o'r offer a thechnegau sydd ar gael iddo/iddi
	1 marc
1	Mae'r ymgeisydd wedi: <ul style="list-style-type: none"> • Gweithredu un yn unig o'r pwyntiau gofynnol fel y nodwyd yn y cynnwys dangosol • Defnyddio rhai o gyfleusterau rhaglennu'r iaith • Dangos dealltwriaeth gyfyngedig o'r offer a thechnegau sydd ar gael iddo/iddi
	0 marc
0	Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno.

Cw	Ateb	Marc	AA1	AA2	AA3	Cyfa nsw m
2	<p>Cynnwys dangosol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mewnbynnu • Unrhyw bedwar dull dilysu: <ul style="list-style-type: none"> ○ Gwiriad amrediad ○ Gwiriad fformat ○ Gwiriad hyd ○ Gwiriad presenoldeb ○ Gwiriad am-edrych ○ Gwiriad math • Storio ar ddisg • Adalw cwsmer penodol o ddisg • Rhyngwyneb cyfrifiadur-dyn (<i>HCI</i>) yn addas i'r pwrpas (Testunol neu RhDG (<i>GUI</i>)) 	8			3.1b	8

Band	AA3.1b 8 marc ar y mwyaf 7-8 marc
3	<p>Mae'r ymgeisydd wedi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Creu rhaglen newydd sy'n cynnwys y mwyafrif o'r gweithrediadau fel y mae'r cwestiwn yn ei ofyn ac fel y nodir yn y cynnwys dangosol. Diffinnir y mwyafrif o'r gweithrediadau fel ymateb sy'n rhoi saith neu wyth eitem o'r gweithrediadau fel y manylir yn y cynnwys dangosol. • Defnyddio a manteisio'n llawn ar gyfleusterau rhaglennu'r iaith • Dangos dealltwriaeth gadarn o'r offer a thechnegau priodol sydd ar gael iddo/iddi • Ysgrifennu cod sydd wedi'i strwythuro'n dda • Darparu tystiolaeth o ryngwyneb defnyddiwr wedi'i gwblhau sy'n cynorthwyo rhyngweithiad â'r defnyddiwr ac yn reddfol
2	<p>Mae'r ymgeisydd wedi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Creu rhaglen newydd sy'n cynnwys y rhan fwyaf o'r gweithrediadau fel y mae'r cwestiwn yn ei ofyn ac fel y nodir yn y cynnwys dangosol. Diffinnir y rhan fwyaf o'r gweithrediadau fel ymateb sy'n rhoi tair i chwe eitem o'r gweithrediadau fel y manylir yn y cynnwys dangosol. • Defnyddio amrediad priodol o gyfleusterau rhaglennu'r iaith • Dangos dealltwriaeth o'r offer a thechnegau sydd ar gael iddo/iddi • Darparu tystiolaeth o ryngwyneb defnyddiwr wedi'i gwblhau sy'n cynorthwyo rhyngweithiad â'r defnyddiwr
1	<p>Mae'r ymgeisydd wedi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Creu rhaglen newydd ag amrediad cyfyngedig o'r gweithrediadau (<i>functionality</i>) a nodir yn y cynnwys dangosol neu wedi gwella'r prototeip a ddarparwyd drwy ychwanegu amrediad cyfyngedig o'r gweithrediadau newydd a nodir yn y cynnwys dangosol. Diffinnir amrediad cyfyngedig o'r gweithrediadau fel ymateb sy'n rhoi un neu ddwy eitem o'r gweithrediadau fel y manylir yn y cynnwys dangosol • Defnyddio amrediad cyfyngedig o gyfleusterau rhaglennu'r iaith • Dangos dealltwriaeth gyfyngedig o'r offer a thechnegau sydd ar gael iddo/iddi • Darparu tystiolaeth o ryngwyneb defnyddiwr
0	<p>0 marc</p> <p>Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno.</p>

Cw	Ateb	Marc	AA1	AA2	AA3	Cyfa nsw m
3	Cynnwys dangosol: Camau o fewn yr is-reolweithiau canlynol wedi'u hanodi'n glir: <ul style="list-style-type: none"> Dilysu Cadw data mewn ffeil Adalw data penodol o ffeil Defnyddio dynodwyr hunanddogfennu / esbonio newidynnau 	4			3.1a	4

Band	AA3.1a 4 marc ar y mwyaf 4 marc
3	Mae'r ymgeisydd wedi: <ul style="list-style-type: none"> Cynhyrchu rhestri sydd wedi'u trefnu'n briodol ac yn cynnwys digon o anodi i ddangos dealltwriaeth gadarn o'r holl reolweithiau rhaglennu a restrwyd yn y cynnwys dangosol Ysgrifennu cod gan ddefnyddio dynodwyr hunanddogfennu / esbonio newidynnau Defnyddio termau technegol priodol gan gyfeirio'n hyderus a chywir at y cynnwys dangosol.
2	<p style="text-align: center;">2-3 marc</p> Gellir dyfarnu tri marc os yw'r ymgeisydd: <ul style="list-style-type: none"> Wedi cynhyrchu rhestri sydd wedi'u trefnu'n briodol ac yn cynnwys digon o anodi i ddangos dealltwriaeth gadarn o'r holl reolweithiau rhaglennu a restrwyd yn y cynnwys dangosol Heb ysgrifennu cod gan ddefnyddio dynodwyr hunanddogfennu / esbonio newidynnau Defnyddio termau technegol priodol gan gyfeirio at y cynnwys dangosol. NEU <ul style="list-style-type: none"> Wedi cynhyrchu rhestri sydd wedi'u trefnu'n briodol ac yn cynnwys digon o anodi i ddangos dealltwriaeth o ddau o'r rheolweithiau rhaglennu a restrwyd yn y cynnwys dangosol Ysgrifennu cod gan ddefnyddio dynodwyr hunanddogfennu / esbonio newidynnau Defnyddio termau technegol priodol gan gyfeirio at y cynnwys dangosol. Gellir dyfarnu dau marc os yw'r ymgeisydd: <ul style="list-style-type: none"> Wedi cynhyrchu rhestri sydd wedi'u trefnu'n briodol ac yn cynnwys digon o anodi i ddangos dealltwriaeth o ddau o'r rheolweithiau rhaglennu a restrwyd yn y cynnwys dangosol Heb ysgrifennu cod gan ddefnyddio dynodwyr hunanddogfennu / esbonio newidynnau Defnyddio termau technegol priodol gan gyfeirio at y cynnwys dangosol. NEU <ul style="list-style-type: none"> Wedi cynhyrchu rhestri sydd wedi'u trefnu'n briodol ac yn cynnwys digon o anodi i ddangos dealltwriaeth o un o'r rheolweithiau rhaglennu a restrwyd yn y cynnwys dangosol Ysgrifennu cod gan ddefnyddio dynodwyr hunanddogfennu / esbonio newidynnau Defnyddio termau technegol priodol gan gyfeirio at y cynnwys dangosol.
1	<p style="text-align: center;">1 marc</p> Mae'r ymgeisydd wedi: <ul style="list-style-type: none"> Cynhyrchu rhestri sydd wedi'u trefnu'n briodol ac yn cynnwys digon o anodi i ddangos dealltwriaeth gadarn o un o'r rheolweithiau rhaglennu a restrwyd yn y cynnwys dangosol Defnyddio ychydig o dermau technegol gan gyfeirio at y cynnwys dangosol. NEU <ul style="list-style-type: none"> Ysgrifennu cod gan ddefnyddio dynodwyr hunanddogfennu Defnyddio ychydig o dermau technegol gan gyfeirio at y cynnwys dangosol.
0	<p style="text-align: center;">0 marc</p> Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno.